**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**19 Medi 2016**

**DATGANIAD O GYFRIFON 2015-16**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Trysorydd dros dro i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon archwiliedig am 2015-16 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r Aelodau.

2 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio ar 12 Medi 2016 er mwyn adolygu cynnwys yr adroddiad cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub. Nid oedd gan Aelodau'r Pwyllgor Archwilio unrhyw sylwadau pwysig ac nid oeddent yn gallu canfod unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad, a byddent yn argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod. Gofynnodd y Pwyllgor i'r adroddiad cyflwyniadol gynnwys yr argymhelliad y dylai'r canfyddiadau o Adroddiad yr Archwilwyr gael eu gweithredu'n llwyr a bod y newidiadau gweithdrefnol yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio.

## Gwybodaeth

3 Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio) (Cymru) 2010 mae'n ofynnol i'r cyfrifon archwiliedig gael eu cymeradwyo gan yr Aelodau erbyn 30 Medi.

4 Mae hefyd yn ofynnol i'r datganiad llywodraethu blynyddol gael ei gyflwyno i'r Aelodau gyda'r datganiad o gyfrifon, a chynhwyswyd y rhain fel atodiad i'r cyfrifon. Lluniwyd y datganiad yn unol â'r egwyddorion sydd yn y fframwaith 'Delivering Good Governance in Local Government' a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid

Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), a chraffodd y Pwyllgor Archwilio arno cyn iddo gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub ar 20 Mehefin 2016. Ers iddo gael ei gymeradwyo mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael ei ddiwygio fymryn yn unol â'r argymhellion a wnaed gan yr Archwilwyr. Mae 4.3, 5.9, 5.10 yn baragraffau newydd a cheir newid i baragraff 12.3.

5 Cyflwynwyd adroddiad i'r Aelodau ar berfformiad ariannol am 2015-16, ac roedd hwnnw'n nodi'r gwariant gwirioneddol am y flwyddyn o'i gymharu â'r gyllideb, a cheisiwyd cymeradwyaeth yr Aelodau i neilltuo'r tanwariant i'r rhaglen cyfalaf. Craffodd y Pwyllgor Archwilio ar yr adroddiad hwn hefyd, ar 6 Mehefin 2016, cyn iddo gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

## Cronfeydd wrth Gefn

6 Mae'r cronfeydd defnyddadwy yn cynnwys y gronfa gyffredinol, cronfeydd a glustnodwyd ac incwm grant a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol. Gall yr Awdurdod ddefnyddio'r cronfeydd hyn i ariannu gwariant yn y blynyddoedd i ddod. Nid oes modd troi'r cronfeydd annefnyddadwy yn arian parod, ac maent yn cynnwys arian a neilltuwyd eisoes i ariannu gwariant; ailbrisiadau i adlewyrchu cynnydd yng ngwerth asedau; a'r gronfa bensiynau, sy'n gronfa ddiffygion.

## Newidiadau wedi Archwilio

7 Mae'r cyfrifon bellach wedi cael eu harchwilio gan yr Archwilydd a benodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac maent wedi eu diwygio yn unol â chanfyddiadau'r archwiliad.

8 Cafodd nifer o gamddatganiadau eu cywiro yn ystod yr archwiliad. Roedd y rhain yn cynnwys nifer o newidiadau o ran cyflwyniad a rhifau, a dim un ohonynt yn cael effaith ar y datganiad cynhwysfawr incwm a gwariant, y fantolen neu ar y gwariant gwirioneddol a ddigwyddodd yn y flwyddyn. Roedd yna 3 camddatganiad na chywirwyd, ac mae'r rheswm dros beidio â chywiro'r rhain yn cael ei gynnwys yn y Llythyr Cynrychiolaeth sydd ynghlwm.

## Argymhellion yr Archwiliad

9 Mae'r argymhellion a ddaeth gan yr Archwilwyr wedi eu cynnwys yn adroddiad yr Archwilwyr. Mae’r Rheolwyr wedi cytuno y bydd yr argymhellion yn cael eu gweithredu’n llawn ac y bydd rhai o’r newidiadau gweithdrefnol yn cael eu hadrodd yn ôl i’r Pwyllgor Archwilio.

## Argymhelliad

10 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) gymeradwyo’r datganiad o gyfrifon archwiliedig am 2015-16; ac

(ii) argymell fod y canfyddiadau o'r adroddiad Archwilwyr yn cael eu gweithredu.